Ymddiriedolaeth Natur
Gogledd Cymru
North Wales
Wildlife Trust




# Helpwch i atal rhywogaethau ymledol rhag lledaenu i'r gwyllt!

# Calendr tymhorol i arddwyr

## Beth yw rhywogaethau ymledol?

Bellach mae llai o fflora brodorol ym Mhrydain ac Iwerddon nag o blanhigion anfrodorol sydd wedi'u cyflwyno o bob cwr o'r byd. Nid yw'r rhan fwyaf yn gyffredin neu nid ydynt yn cael effaith amlwg ar fyd natur a bywyd gwyllt. Mae rhywogaethau anfrodorol ymledol yn wahanol, fodd bynnag, oherwydd bod ganddynt y gallu i ymledu, gan achosi niwed i'r amgylchedd, yr economi, ein hiechyd ni, neu'r ffordd rydyn ni'n byw.

**Enghreifftiau o rywogaethau ymledol**

**Cenhinen trionglog**



**Y gynffon las**



**Triaglog goch**



**Cotoneaster asgwrn pysgodyn**



**Gwernydd Awstralia**



**Crib-y-ceiliog**



**Pidyn-y-gog melyn**



**Coeden lawrgeirios**



**Clymog Japan**



**Rhododendron**



## Beth all garddwyr ei wneud i helpu i atal yr ymlediad?

Er mwyn helpu i warchod ac adfer byd natur mae angen i ni atal rhywogaethau ymledol rhag dianc o'n gerddi ni a sefydlu yn y gwyllt. Agorwch ein tafleu newydd i weld y calendr tymhorol gyda chynghorion defnyddiol ar sut i helpu.

| Enw'r planhigyn: | GWANWYN | HAF | HYDREF | GAEAF | Cyngor compostio | Planhigion amgen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cenhinen trionglog** (*Allium triquetrum*) | Cloddio'r planhigyn cyfan allan, gan gymryd gofal i gael gwared ar y bylbiau a phennau'r hadau. | Cloddio'r planhigyn cyfan allan, gan gymryd gofal i gael gwared ar y bylbiau a phennau'r hadau. | Mae'n marw yn ystod yr Hydref a'r Gaeaf. | Mae'n marw yn ystod yr Hydref a'r Gaeaf. | Peidiwch â chompostio bylbynnau na hadau gartref. Defnyddiwch gyfleusterau gwastraff gardd y cyngor. | Craf y geifr (*Allium ursimun*) |
| **Y gynffon las** (*Buddleja davidii*) | Cael gwared ar yr eginblanhigion drwy eu tynnu â llaw neu gloddio. | Cloddio i gael gwared arno yn llwyr neu ei dorri'n ôl i gyfyngu ar dyfiant. | Tynnu pennau'r blodau marw ar ôl blodeuo cyn i hadau ddatblygu. | Cloddio i gael gwared arno yn llwyr neu ei dorri'n ôl i gyfyngu ar dyfiant. | Peidiwch â chompostio pennau'r hadau gartref. Defnyddiwch gyfleusterau gwastraff gardd y cyngor. | Ysgawen 'Gerda' (*Sambucus nigra* f. *porphyrophylla* 'Gerda'), Lelog Califfornia (*Ceanothus thyrsiflorus*) |
| **Triaglog goch** (*Centranthus ruber*) | Cael gwared ar yr eginblanhigion drwy eu tynnu â llaw neu gloddio. | Tynnu pennau'r blodau marw ar ôl blodeuo cyn i hadau ddatblygu. | Tynnu pennau'r blodau marw ar ôl blodeuo cyn i hadau ddatblygu. | Cloddio i gael gwared arno yn llwyr neu ei dorri'n ôl i gyfyngu ar dyfiant. | Compostio gartref. | Milddail (*Achillea millefolium*), Briweg iâr fach yr haf (*Hylotelephium spectabile*), Isop (*Hyssopus officinalis*) |
| **Cotoneaster asgwrn pysgodyn** (*Cotoneaster horizontalis*) | Cael gwared ar yr eginblanhigion drwy eu tynnu â llaw neu gloddio. | Cloddio i gael gwared arno yn llwyr. | Cloddio i gael gwared arno yn llwyr. | Cloddio i gael gwared arno yn llwyr. | Peidiwch â chompostio'r aeron gartref. Defnyddiwch gyfleusterau gwastraff gardd y cyngor. | Corhelygen (*Salix repens* var. *argentea*), Pedwar-ban-byd Rakai (*Hebe rakaiensis*) |
| **Gwernydd Awstralia** (*Crassula helmsii*) | WEDI'I WAHARDD MEWN RHAI GWLEDYDD YN Y DU – RHEOLI A GWIRIO | | | | | Gold y gors (*Caltha palustris*), Brigwlydd cyffredin (*Callitriche stagnalis*) |
| **Crib-y-ceiliog** (*Crocosmia × crocosmiiflora*) | Cael gwared ar yr eginblanhigion a'r planhigion aeddfed drwy eu cloddio allan gan sicrhau bod y cormau'n cael eu tynnu. | Cael gwared ar yr eginblanhigion a'r planhigion aeddfed drwy eu cloddio allan gan sicrhau bod y cormau'n cael eu tynnu. | Cael gwared ar yr eginblanhigion a'r planhigion aeddfed drwy eu cloddio allan. Mae'n marw yn ystod yr Hydref a'r Gaeaf. | Cael gwared ar yr eginblanhigion a'r planhigion aeddfed drwy eu cloddio allan. Mae'n marw yn ystod yr Hydref a'r Gaeaf. | Peidiwch â chompostio'r cormau gartref. Defnyddiwch gyfleusterau gwastraff gardd y cyngor. | Iris 'Black Swan', Procer poeth Rooper (*Kniphofia rooperi*) |
| **Pidyn-y-gog melyn** (*Lysichiton americanus*) | WEDI'I WAHARDD MEWN RHAI GWLEDYDD YN Y DU – RHEOLI A GWIRIO | | | | | Astilbe 'Fanal' (*Astilbe × arendsii*), Lili undydd (*Hosta 'Sum and Substance'*) |
| **Coeden lawrgeirios** (*Prunus laurocerasus*) | Cael gwared ar yr eginblanhigion a'r sugnyddion drwy eu tynnu â llaw neu gloddio / torri. | Tynnu pennau'r blodau marw ar ôl blodeuo cyn i'r aeron ddatblygu. | Cloddio allan i gael gwared arno neu ei dorri'n ôl i gyfyngu ar dyfiant. | Cloddio allan i gael gwared arno neu ei dorri'n ôl i gyfyngu ar dyfiant. | Defnyddiwch gyfleusterau gwastraff gardd y cyngor. | Ywen (*Taxus baccata*), Ffawydden (*Fagus sylvatica*), Yswydden (*Ligustrum vulgare*), Celynnen (*Ilex aquifolium*) |
| **Clymog Japan** (*Reynoutria japonica*) | WEDI'I GYFYNGU YN Y DU – RHAID EI REOLI | | | | | Cretan hemp (*Datisca cannabina*), Aralia cachemirica (*Aralia cachemirica*) |
| **Rhododendron** (*Rhododendron ponticum*) | Cael gwared ar yr eginblanhigion a'r sugnyddion drwy eu tynnu â llaw neu gloddio / torri. | Tynnu pennau'r blodau marw ar ôl blodeuo i atal yr hadau rhag ymledu. | Cloddio allan i gael gwared arno neu ei dorri'n ôl i gyfyngu ar dyfiant. | Cloddio allan i gael gwared arno neu ei dorri'n ôl i gyfyngu ar dyfiant. | Rhaid defnyddio cyfleusterau gwastraff arbenigol i gael gwared arno. | Abelia sgleiniog (*Abelia grandiflora*), Viburnum Burkwood (*Viburnum × burkwoodii*) |

**BYDDWCH YN YMWYBODOL!**

**Mae'r planhigyn yma wedi'i wahardd rhag cael ei werthu mewn o leiaf un wlad yn y DU. Yn y gwledydd lle mae gwaharddiad yn berthnasol, rhaid i arddwyr sydd eisoes â'r planhigyn ei gadw dan reolaeth a rhaid iddynt beidio â chaniatáu iddo ymledu i'r gwyllt. Efallai y bydd angen triniaeth arbenigol i gael gwared arno.**

Cronfa Treftadaeth Heritage Fund

Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru / In Partnership with Welsh Government

**Sganiwch y cod i archwilio fideos, proffiliau planhigion a mwy yn y *Pecyn Adnoddau i Arddwyr***

© YNGC | Rhif elusen gofrestredig: 230772 | Ffotograffau: GB NNSS, Lisa Toth, Philip Precey | northwaleswildlifetrust.org.uk/cy/pecyn-cymorth-garddwyr